Papur y Bwrdd

14 Mai 2014

Teitl y Papur	**Fframwaith Perfformiad 2014/15**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B B 41.14**
Paratowyd y Papur gan:	Clive Thomas John Hogg

Pwrpas y papur:	**Trafod a chytuno ar Fframwaith Perfformiad ar gyfer 2014/15**
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd: 1. Gytuno ar y Fframwaith Perfformiad. 2. Cymeradwyo mesurau'r Cynllun Busnes i gael eu cynnwys yn y Fframwaith Perfformiad, fel y gall y Weithrediaeth, gyda chymorth Is-grŵp y Bwrdd benderfynu'n derfynol ar fesurau'r dangosfwrdd ar gyfer 2014/15. 3. Nodi amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn 2014/15. 4. Nodi y byddwn yn cyflwyno ein Fframwaith Perfformiad i Lywodraeth Cymru, ar ôl cytuno arno.
Angen Penderfyniad:	Cytuno ar y Fframwaith Perfformiad a sut y byddwn yn mynd ati i gwblhau mesurau'r dangosfwrdd ar gyfer 2014/15.

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd:** Bydd y Fframwaith Perfformiad yn dangos cynnydd dangosyddion yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol yn cyrraedd targedau ein Cynllun Busnes 2014/15 sy'n ymwneud â'r rhaglen Amgylchedd Da. **Effaith ar yr Economi:** Bydd y Fframwaith Perfformiad yn dangos cynnydd dangosyddion yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol yn cyrraedd targedau ein Cynllun Busnes 2014/15 sy'n ymwneud â'r rhaglen Da i Fusnes. **Effaith ar y Gymuned:** Bydd y Fframwaith Perfformiad yn dangos cynnydd dangosyddion yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol yn cyrraedd targedau ein Cynllun Busnes 2014/15 sy'n ymwneud â'r rhaglen Da i Bobl. **Effaith ar Wybodaeth:**

	Bydd y Fframwaith Perfformiad yn dangos cynnydd dangosyddion yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol yn cyrraedd targedau ein Cynllun Busnes 2014/15 sy'n ymwneud â'r rhaglen Gwybodaeth Dda.

Pwnc

1 Datblygwyd Fframwaith Perfformiad mewn ymateb i'r gofyniad penodol yn ein Llythyr Cylch Gwaith. Y Fframwaith fydd un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein cyflawniad a chefnogi cynlluniau strategol yn ystod 2014/15 a thu hwnt. Trafodwyd ein cynigion cychwynnol ag is-grŵp o'r Bwrdd ar 28 Mawrth 2014 ac mae'r cynnig terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd er mwyn cytuno arno cyn iddo ddod yn weithredol.

2 Fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad ac yn unol â'r Cynllun Busnes newydd, mae angen i ni gytuno ar yr is-set o fesurau'r Cynllun Busnes ar gyfer adroddiadau dangosfwrdd yn ystod 2014/15. Rydym hefyd wedi penderfynu'n ffurfiol mai bob pedwar mis y cyflwynir adroddiadau yn ystod 2014/15.

Crynodeb

Fframwaith Perfformiad

3 Mae'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad wedi'i ysgogi gan Lythyr Cylch Gwaith 2014/15 a Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, yr angen i gytuno ar yr is-set o fesurau'r Cynllun Busnes ar gyfer dangosfwrdd 2014/15, a cham gweithredu o gyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2014 yn galw am baratoi crynodeb perfformiad.

4 Mae'r Fframwaith Perfformiad yn ymateb i'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014-17 sydd wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi, a Chynllun Busnes 2014/15. Bydd yn dangos cynnydd tuag at y canlyniadau rydym yn eu dyheu yn y Cynllun Corfforaethol a'r modd yr awn ati i gyflawni'r Cynllun Busnes. Mae gan y Bwrdd swyddogaethau'n ymwneud â'r Fframwaith Perfformiad: cynorthwyo a chynghori'r Weithrediaeth, a chraffu a llywodraethu.

5 Mae'r Fframwaith Perfformiad, sydd i'w weld yn Atodiad 1, yn dangos y "llinyn aur" rhwng y canlyniadau strategol a thargedau timau/unigolion. Mae'r lefelau perthnasol yn cysylltu â'i gilydd i greu camau gweithredu ac i ysgogi penderfyniadau.

6 Byddwn yn parhau i adrodd yn rheolaidd ar ein perfformiad i'r Bwrdd fel y gall gyflawni ei rôl graffu.

7 Bydd yr adroddiad hwn, sydd i'w weld yn Atodiad 2, ar y ffurf ganlynol:

- Crynodeb lefel uchel o berfformiad sy'n dwyn ynghyd yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Busnes a'r Achos Busnes. Nodwyd yr angen hwn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2014, ac
- Adroddiad perfformiad manylach ar gyfer pob un o'r pum Rhaglen. Byddant yn cynnwys cynnydd yn erbyn dangosyddion y Cynllun Corfforaethol a chyfres ddethol o dargedau'r Cynllun Busnes. Ni all nifer CNC ar ei ben ei hun gyflawni nifer o ddangosyddion ein Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, maent o gymorth i ni alinio ein gwaith cyflawni a sicrhau ein bod yn gofyn cwestiynau strategol gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ynghylch a yw'n model cyflawni byth yn debygol o fod yn effeithiol.

Gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar y Fframwaith Perfformiad.

8 Yn 2013/14 roedd gennym ddangosfwrdd ‘annibynnol’ gyda chyfres ddethol o dargedau’r Cynllun Busnes, yn absenoldeb Cynllun Corfforaethol wedi’i gytuno. O 2014/15 ymlaen, rydym yn cynnig ein bod yn adrodd ar y dangosfwrdd o dargedau’r Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15 a dangosyddion y Cynllun Corfforaethol gyda’i gilydd fel bod un adroddiad perfformiad ar gyfer pob Rhaglen.

9 Ochr yn ochr ag adroddiadau’r Rhaglen, rydym yn cynnig dangosfwrdd sy’n dwyn ynghyd gyfres o ddangosyddion perfformiad a mesurau sydd wedi’u cynnwys yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15. Mae drafft i’w weld yn Atodiad 3 ac er nad yw’r dangosyddion a mesurau terfynol hyn wedi’u dewis hyd yma, bydd y dangosfwrdd cryno yn cysylltu â dangosfwrdd Cynllun Cyflenwi pob Cyfarwyddiaeth, sy’n cael ei adolygu’n rheolaidd fel rhan o waith craffu ar berfformiad y Tîm Gweithredol.

10 Dewiswyd y gyfres (dangosfwrdd) o dargedau’r Cynllun Busnes ar sail y canlynol:

- Parhad mesurau o’n dangosfwrdd blaenorol,
- Risgiau sylweddol o’n Cofrestr Risgiau,
- Targedau penodol a’r pedair blaenoriaeth Weinidogol, sef twf gwyrdd, trechu tlodi, defnydd effeithlon o adnoddau a chydnerthedd yn ein Llythyr Cylch Gwaith
- Pynciau penodol y gofynnodd y Bwrdd amdanynt yn flaenorol (er enghraifft Arloesedd a Phartneriaethau).

11 Gofynnir i’r Bwrdd gymeradwyo’r dull gweithredu a’r mesurau dangosfwrdd drafft i gael eu cynnwys yn y Fframwaith Perfformiad fel gall y Weithrediaeth gyda chymorth Is-grŵp y Bwrdd benderfynu’n derfynol ar y mesurau perfformiad ar gyfer 2014/15.

12 Bydd y Bwrdd yn cael adroddiad ar berfformiad bob pedwar mis yn unol â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru. Byddai’r Bwrdd yn ystyried hyn mewn sesiwn agored (Hydref 2014, Chwefror 2015 a Mai 2015) a bydd y Fframwaith Perfformiad ar gael i’r cyhoedd. Caiff ei gyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru a’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar ôl i’r Bwrdd ei ystyried bob tro. Gofynnir i’r Bwrdd nodi’r amserlen hon.

13 Yn unol â’n Dogfen Fframwaith, mae angen i ni adrodd ar ein perfformiad yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru. Gofynnir i’r Bwrdd nodi y byddwn yn cyflwyno ein Fframwaith Perfformiad i Lywodraeth Cymru ar ôl cytuno arno.

14 Ar ôl cytuno arno, byddwn yn gweithio gyda’r Tîm Gweithredol ac Is-grŵp y Bwrdd i ddatrys yn derfynol unrhyw faterion sydd yn dal heb eu datrys ynghylch y Fframwaith Perfformiad. Yna, bydd ein Fframwaith Perfformiad yn cael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru a bydd canllawiau’n cael eu cyhoeddi i’r sefydliad fel y gellir dechrau adrodd ar gyfer 2014/15.

15 Heb waith craffu priodol ar ein perfformiad, mae risg y gallem fethu â chyflawni ein Cynllun Corfforaethol a’n Cynlluniau Busnes a gallai hynny arwain at wneud drwg i’n henw da.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

16 Ni cheir unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol yn sgil darparu'r adroddiad perfformiad hwn.

Cyfathrebu

17 Bydd angen cyfathrebu â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ynglŷn â'r Fframwaith Perfformiad.

18 Gosodir copi o'r Fframwaith Perfformiad ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru er gwybodaeth i'r cyhoedd ac eraill.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

19 Amherthnasol

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1: Fframwaith Perfformiad CNC
Atodiad 2: Crynodeb lefel uchel o berfformiad ac adroddiadau perfformiad manwl
Atodiad 3: Dangosfwrdd y Cynllun Busnes